

Cyngor Cymuned Llansawel *Community Council*

Cyfarfod Misol / *Monthly Meeting*

Neuadd y Pentref, Llansawel am 19:30, 21ain o Hydref 2021 / *21st of October 2021*

Yn bresennol / *Present:*

Cynghorwyr / *Councillors:* Rhys George (Cadeirydd / *Chair*), Meurig Griffiths, Lynne Jones & Kevin Davies

Cyng. Sir / *County Cllr:* Eirwyn Williams

Clerc / *Clerk:* Angharad Lewis

1.	<u>Croeso / Welcome</u> Croesawodd y clerc bawb i'r cyfarfod misol cyntaf, wyneb yn wyneb, ers mis Mehefin. Nodwyd y byddwn yn cadw llygad barcud ar y gyfradd Covid yn yr ardal cyn penderfynu a ddylid cynnal cyfarfodydd misol rhithwir neu wyneb yn wyneb. <i>The clerk welcomed everyone to the first monthly, face-to-face, meeting since June. It was noted that we will be keeping a close eye on the Covid rate in the area before deciding whether to hold virtual or face-to-face monthly meetings.</i>
2.	<u>Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absence</u> Cynghorwyr / <i>Cllrs Rhys Green (Is-gadeirydd / Vice chair), Pat Racher, Sion Williams & Elsbeth Jenkins.</i>
3.	<u>Datganiadau o ddiddordeb / Declarations of interest</u> Dim / <i>None.</i>
4.	<u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar y 16eg o Fedi 2021</u> <u>Minutes from the previous meeting held on the 16th of September 2021</u> Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir gan y Cyng. Kevin Davies. <i>The minutes were accepted as a true record and proposed by Cllr Kevin Davies.</i>
5.	<u>Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes</u> i. Pont Tancoed, Heol Esgairdawe – Soniodd y Cyng. Eirwyn Williams ei fod wedi trafod y mater gyda S. Quick yr wythnos hon a gadarnhaodd ei fod yn cadw llygad ar y bont. <i>Tancoed bridge, Esgairdawe Road – Cllr. Eirwyn Williams said that he has discussed the matter with S. Quick this week who confirmed that he is keeping an eye on the bridge.</i> ii. Gwefan – Dim i'w adrodd. <i>Website – Nothing to report.</i> iii. Hen adeilad yr hers – Dywedodd y Cyng. Meurig Griffiths ein bod yn aros i dderbyn dyfynbris newydd gan G. Davies, oherwydd y cynnydd sylweddol yng nghostau deunyddiau. <i>The old Hearse building – Cllr Meurig Griffiths reported that we are waiting to receive a new quote from G. Davies, due to the significant rise in the costs of materials.</i> iv. Prosiect Llwybr Troed – Derbyniodd y Clerc ymateb gan Jason Lawday, Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad, ac mae'n ymddangos bod y llwybrau sydd gennym mewn golwg yn lwybrau cyhoeddus yn barod, ond awgrymwyd gwneud arolwg yn gyntaf i weld beth sydd angen gwneud ier mwyn ailagor y llwybrau. Cytunwyd i aros nes bod y materion cyfreithiol gydag Edwinsford wedi'u cwblhau. Bydd angen trafod sut i gynnal

	a chadw'r llwybrau yn y tymor hir gan fod disgwyl i'r gymuned edrych ar eu hôl. Mae tirfeddianwyr yn gymwys i gael cymorth gan y Cyngor Sir i osod a chynnal a chadw dodrefn llwybrau awdurdodedig. Gall y Cyngor Sir gyflenwi dodrefn newydd, os oes angen. Public Footpath Project – <i>The Clerk received a response from Jason Lawday, Countryside Access Officer, and it seems that the routes we have in mind are already public footpaths, but it was suggested to do a survey first to see what needs to be done to re-open the routes. It was agreed to wait until the legal issues with Edwingsford had been finalised. There will be a need to discuss how to maintain the paths in the long term as the community is expected to maintain them.</i> <i>Landowners are eligible for assistance from the County Council with the installation and maintenance of authorised path furniture. The County Council can supply new furniture, if needed.</i> v. Lleoedd Lleol ar gyfer Natur – Rhannodd y Clerc ei phryderon gyda'r Cynghorwyr wrth fwrw ymlaen â'n cais am Yr Ardd Ffrwythau a Pherlysiau i'r pentref. Esboniodd y Clerc ei bod wedi gweld 3 phentref gyda'r gerddi hyn, ac maent bellach yn edrych wedi'u hesgeuluso a'u gor-dyfu. Dywedodd y Clerc, oni bai bod rhywun yn fodlon bod yn gyfrifol am yr ardd a'i chynnal yn rheolaidd, y bydd yn edrych yn ddolur llygad wrth yrru drwy'r pentref. Cytunwyd i beidio â bwrw ymlaen â'n cais ar hyn o bryd. Local Places for Nature – <i>The Clerk shared her concerns with the Councillors with proceeding with our application for the Fruit and Herb Garden for the village. The Clerk explained that she has seen 3 villages with these gardens, and they now look neglected and over-grown. The Clerk stated that unless someone was willing to be responsible for the garden and maintain it regularly then it will look an eye sore when driving through the village. It was agreed not to proceed with our application at this time.</i> vi. Coeden Onnen – Adroddwyd bod y goeden bellach wedi'i symud o'r afon. Ash Tree – <i>It was reported that the tree had now been removed from the river.</i> vii. Canghennau Crog – Nodwyd bod gwaith wedi cael ei wneud ar ffordd Llansawel i Abergorlech yn ddiweddar. Hanging branches – <i>It was noted that work had recently been undertaken on the Llansawel to Abergorlech road.</i> viii. Padiau diffibriliwr – Soniodd y clerc fod 2 set o badiau diffibriliwr yn y cabinet erbyn hyn. Defibrillator pads – <i>The clerk mentioned that there are now 2 sets of defibrillator pads in the cabinet.</i> ix. Tractorau – Cytunwyd i adrodd y mater i'r Heddlu, ond teimlai pawb ei bod braidd yn hwyr yn y flwyddyn i fynd i'r afael â'r broblem. Cytunwyd i atgoffa'r Heddlu yn y Gwanwyn / Haf i ddod i fonitro'r sefyllfa. Tractors – <i>It was agreed to report the issue to the Police, but everyone felt that it is rather late in the year to tackle the problem. It was agreed to remind the Police in the Spring / Summer to come and monitor the situation.</i>
S	<u>Dyfodol Adeilad Ysgol Llansawel / The Future of Llansawel School Building</u> Dim gwybodaeth i'w hadrodd. <i>No information to report.</i>
7.	<u>Gohebiaeth / Correspondence</u>

	i. Cyfarfod Pwyllgor Ardal Sir Caerfyrddin – Mae'r Clerc wedi derbyn gwahoddiad i'r cyfarfod nesaf, sy'n gael ei gynnal o bell am 6.30yh ar y 27ain o Hydref 2021. Os hoffai unrhyw un fod yn bresennol, cysylltwch â'r Clerc am yr Agenda, papurau a linc. <i>Carmarthenshire Area Committee Meeting – The Clerk has received an invitation to the next meeting, which is being held remotely at 6.30pm on the 27th of October 2021. If anyone would like to attend, please contact the Clerk for the Agenda, papers, and link.</i>
8.	<u>Ceisiadau cynllunio / Planning applications</u> -PL/02501 – Steel framed agricultural building for the dry storage of farmyard manure - Berllan, Penlan, Llansawel, Llandeilo, SA19 7JB. Yn dilyn y pryderon ynglŷn â'r cais cynllunio hwn, mae cynllun diwygiedig bellach wedi'i gyflwyno ac nid oes gan y Cynghorwyr unrhyw wrthwynebiadau mwyach. <i>Following the concerns regarding this planning application, a revised plan has now been submitted and the Councillors no longer have any objections.</i> -PL/02760 – EE Mast Tyncwm Farm – Dim gwrthwynebiad / <i>No objection.</i>
9.	<u>Materion ariannol / Financial matters</u> Balans yn y cyfrif banc - £4,974.26 ar 29/09/21. <i>Bank Account balance - £4,974.26 as of 29/09/21.</i> i. <u>Rhoddion a thaliadau / Donations & Payments</u> • 000802 – Angharad Lewis – Clerk's salary for October 2021 - £200.80 • 000803 – Llansawel Recreation Field & Hall Trust - £600.00 – Public toilet support. Gofynnwyd am drosglwyddiad banc gan Bill Davis. Cytunwyd bod y Clerc yn talu'r siec yn uniongyrchol i'w cyfrif yn y banc. <i>A bank transfer has been requested by Bill Davis. It was agreed that the Clerk pay the cheque directly into their account at the bank.</i> ii. <u>Crynodeb Chwarterol o'r cyfrifon</u> – Rhannodd y Clerc y crynodeb Chwarterol am y cyfnod 01/07/21 – 30/09/21. <i>Quarterly Summary of Accounts - The Clerk shared the Quarterly summary for the period 01/07/21 – 30/09/21.</i> iii. <u>Cyfrifon / Archwiliad Blynnyddol</u> – Nodwyd bod Archwilio Cymru wedi bod mewn cysylltiad â'r Clerc yn gofyn am gopi o'r cofnodion yn cadarnhau cyflog y Clerc. Cadarnhaodd y Clerc fod y cofnodion wedi'u hanfon ac rydym yn awr yn aros am yr adroddiad terfynol. <i>Annual Accounts / Audit – It was noted that Audit Wales have been in contact with the Clerk requesting a copy of the minutes confirming the Clerk's salary. Clerk confirmed that the minutes have been sent and we now await the final report.</i>
10.	<u>Coronafeirws / Coronavirus (Covid-19)</u> Dim / <i>None.</i>
11.	<u>Unrhyw fusnes arall / Any other business</u> • Swydd y Clerc – Cafwyd cadarnhad gan y Cyng. Eirwyn Williams nad yw ffiniau'r Ward yn newid. Dywedodd y Clerc ei bod wedi derbyn cadarnhad gan Un Llais Cymru nad yw'r graddfeydd cyflog newydd ar gyfer Clercod wedi cyrraedd eto ac nad yw hyn yn debygol o ddigwydd eleni ac fe'i cynghorwyd i ddefnyddio ei chyfradd cyflog bresennol ar yr hysbyseb. Cymeradwyodd y Cadeirydd yr hysbyseb a chytunodd fod y swydd yn

	barod ar gyfer hysbysebu. Bydd copi o'r hysbyseb yn mynd ar ein gwefan ac i Un Llais Cymru. Clerk's Resignation – Confirmation had been received from Cllr. Eirwyn Williams that the Ward boundaries are not changing. The Clerk reported that she had received confirmation from One Voice Wales that the new pay scales for Clerks have not yet arrived and this is unlikely to happen this year and was advised to use her current rate of pay on the advertisement. The Chair approved the advertisement and agreed that the post was ready for advertising. A copy of the advert will go on our website and to One Voice Wales. Cymorth cludiant i'r ysgol - Mae I. Jones wedi bod mewn cysylltiad â'r Clerc yn gofyn am gymorth gan y Cyngor Cymuned yn ei apêl am docyn bws i'w 2 blentyn fynychu'r ysgol yn Llanymddyfri. Cwmni I. Jones, Castle Garage, sy'n darparu cludiant ysgol o Maestwynog i Lanymddyfri, ond ni all ei blant gael tocyn bws ar gyfer y daith. Ar hyn o bryd, rhaid i'w wraig eu gyrru i'r ysgol a nôl. Nodwyd hefyd mai dyma'r 3edd flwyddyn y mae wedi gwneud cais am docyn bws ac mae'n cael ei wrthod bob blwyddyn. Nid yw'n gofyn i'r plant gael eu casglu o'u cartref, hoffai iddynt allu dal y bws o Maestwynog. Ar hyn o bryd mae'n mynd drwy apêl am ei gais presennol. Mae'r Cyngorwyr yn hapus i gefnogi ei apêl, os oes angen, gan ofyn i Mr Jones gadw mewn cysylltiad â chanlyniad yr apêl. Cytunodd y Cyngorwyr nad oedd hyn yn gyfeillgar iawn i'r amgylchedd ac mae wedi achosi straen ar y rhieni. School transport assistance – I. Jones has been in contact with the Clerk asking for support from the Community Council in his appeal for a bus pass for his 2 children to attend school in Llandovery. I. Jones' company, Castle Garage, provides the school transport from Maestwynog to Llandovery, but his Children cannot obtain a bus pass for the journey. Currently, his wife must drive them to school and back. It was also noted that this is the 3rd year he has applied for a bus pass and is turned down each year. He is not asking for the Children to be collected from their home, he would like them to be able to catch the bus from Maestwynog. He is currently going through an appeal for his current application. The Councillors are happy to support his appeal, if required, and ask Mr Jones to keep in contact with the outcome of the appeal. The Councillors agreed that this was not very environmentally friendly and has caused stress to the parents. x. Heol Esgairdawe, ger Trehelyg – Adroddodd y Cyng. Meurig Griffiths bod yr ardal ger Trehelyg dal mewn cyflwr gwael. Nodwyd fod angen gwneud mwy o waith tu cefn i'r ffens. Esgairdawe Road, near Trehelyg – Cllr Meurig Griffiths reported that the area near Trehelyg is still in poor condition. It was noted that work is needed behind the fence.
12.	<u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf / Date and time of next meeting</u> 18fed o Dachwedd 2021 am 19:30. Lleoliad i'w gadarnhau. 18th of November 2021 at 19:30. Location to be confirmed.
Heb unrhyw fusnes arall i'w drafod, caeodd y Cadeirydd y cyfarfod am 21:13. With no other business to discuss, the Chair closed the meeting at 21:13.	

Arwyddwyd / Signed Dyddiad / Date